Hawdd ei Ddeall

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**
*Gwasanaethau Ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales


# Golchi mowld y glust

## Mae'r ffurflen hon ynglŷn â golchi mowld y glust

### Sut i baratoi mowld y glust ar gyfer ei lanhau



Mowld y glust yw'r rhan sy'n mynd i mewn i'ch clust.




I'w lanhau yn dda, tynnwch y cymorth clust a **mowld y glust** oddi wrth ei gilydd.

Tynnwch y tiwb meddal oddi ar benelin y cymorth clywed. Mae'r rhan sy'n cael ei alw'n benelin yn cael ei ddangos yn y llun.

Peidiwch â thynnu'r tiwb allan o **fowld y glust**.

## Sut i olchi mowld y glust




Golchwch **mowld y glust** mewn dŵr cynnes sebonllyd.

Rinsiwch o'n dda mewn dŵr glân.

Ysgydwch o i gael gwared ag unrhyw ddŵr o'r tiwb.

Gadewch iddo sychu dros nos mewn lle sych a chynnes. Neu sychwch o'n sych â hances bapur.



Rhowch y tiwb yn ôl ar benelin y cymorth clywed gyda'r llinellau crymion yn dilyn ei gilydd.